Bwletin ystadegol

# Pobl yng Nghymru a Lloegr â chyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn y cyfrifiad: Cyfrifiad 2021

Nodweddion pobl a symudodd flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021 a Chyfrifiad 2011, gyda setiau data mudo manwl. Mewnlifau ac all-lifau rhanbarthol ac awdurdod lleol.

Cyswllt:
Steve Smallwood, Caroline Parker-Smith, Lynda Cooper
census.customerservices@ons.gov.uk
+44 1329 444972

Dyddiad y datganiad:
6 September 2023

Cyhoeddiad nesaf:
To be announced

## Table of contents

1. Prif bwyntiau
2. Pobl â chyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn y cyfrifiad
3. Mewnlifau – rhanbarthau ac awdurdodau lleol
4. All-lifau – rhanbarthau ac awdurdodau lleol
5. Llifau net – rhanbarthau ac awdurdodau lleol
6. Pobl â chyfeiriad gwahanol flwyddyn cyn y cyfrifiad yn yr un ardal
7. Data mudo manwl
8. Rhestr termau
9. Mesur y data
10. Cryfderau a chyfyngiadau
11. Cyfeirio at y bwletin hwn

# 1 . Prif bwyntiau

- Yn 2021, roedd gan 5.9 miliwn o bobl yng Nghymru a Lloegr gyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn Diwrnod y Cyfrifiad (10.1% o breswylwyr arferol un oed a throsodd), sef gostyngiad o 6.1 miliwn (11.1%) yn 2011.

- Yn 2021, roedd gan 5.4% o bobl (3.2 miliwn) gyfeiriad gwahanol yn yr un awdurdod lleol flwyddyn cyn Diwrnod y Cyfrifiad, sef gostyngiad o 6.5% (3.6 miliwn) yn 2011, ac roedd gan 4.7% (2.8 miliwn) gyfeiriad mewn awdurdod lleol gwahanol, sef cynnydd bach o 4.6% (2.5 miliwn) yn 2011.

- Yn ystod y flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021, Llundain oedd yr unig ranbarth ag all-lif net, lle roedd mwy o bobl wedi symud o Lundain i rywle arall yng Nghymru a Lloegr (3.8% o boblogaeth Llundain) nag oedd wedi symud o rywle arall yng Nghymru a Lloegr i Lundain (1.7% o boblogaeth Llundain).

- Roedd gan un rhan o bump o bobl (21.5%) a oedd yn byw mewn cartrefi rhent preifat gyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021, sef cyfran lai nag yn 2011 (31.9%).

- O blith y bobl a oedd yn byw mewn cartrefi sy'n eiddo i berchen-feddianwyr, roedd gan 6.2% gyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021, sef cyfran fwy nag yn 2011 (5.2%).

- Roedd chwarter (25.6%) o fyfyrwyr amser llawn wedi newid cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021, sydd bron heb newid ers 2011 (25.4%).

# 2 . Pobl â chyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn y cyfrifiad

Yn 2021, roedd gan 276,000 o bobl yng Nghymru (9.0% o breswylwyr arferol un oed a throsodd) a 5.7 miliwn o bobl yn Lloegr (10.1%) gyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn Diwrnod y Cyfrifiad (21 Mawrth 2021). Mae'r gyfran hon yn is nag yn 2011 pan oedd gan 10.4% o bobl yng Nghymru ac 11.1% o bobl yn Lloegr gyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn Diwrnod y Cyfrifiad.

Mae'n debyg bod pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi annog rhai pobl i beidio â newid cyfeiriad. Nid oedd deddfwriaeth yn atal pobl rhag symud t, ond cynghorwyd pobl i gymryd rhagofalon ychwanegol. Fodd bynnag, gall rhai pobl fod wedi symud oherwydd y pandemig, er enghraifft oedolion ifanc yn dychwelyd i gartref y teulu a phobl yn symud allan o ardaloedd trefol.

Cynyddodd cyfran y bobl yng Nghymru a Lloegr oedd â chyfeiriad mewn awdurdod lleol arall yn y Deyrnas Unedig flwyddyn yn ôl i 4.7% yn 2021 o 4.6% yn 2011. Symudodd cyfran fach o bobl i Gymru a Lloegr o Ogledd Iwerddon a'r Alban (0.06% yn 2021 a 0.09% yn 2011).

Gostyngodd cyfran y bobl oedd â chyfeiriad gwahanol yn eu hawdurdod lleol i 5.4% yn 2021 o gymharu â 6.5% yn 2011.

Symudodd llai nag 1% o bobl (0.9%) o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig yn 2021, sef gostyngiad o 1.1% yn 2011. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein herthygl Mudo rhyngwladol, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021.

Ni chofnododd Cyfrifiad 2021 symudiadau plant dan flwydd oed am nad oedd ganddynt gyfeiriad flwyddyn yn ôl. Gwnaed amcangyfrif ar gyfer y symudiadau hyn yn 2011, ond mae wedi'i dynnu o'r dadansoddiad yn y bwletin hwn er mwyn cymharu â 2021.

## Deiliadaeth

Roedd gan un rhan o bump o bobl (21.5%) a oedd yn byw mewn cartrefi rhent preifat ar Ddiwrnod y Cyfrifiad gyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021. Dyma'r gyfran uchaf o blith unrhyw fath o ddeiliadaeth, ond dyma'r gostyngiad mwyaf hefyd, o 31.9% yn 2011. Yn 2021, roedd gan 11.7% o'r grp hwn gyfeiriad gwahanol yn yr un awdurdod lleol, sef gostyngiad o 19.1% yn 2011.

Sicrhaodd Deddf y Coronafeirws 2020 fod tenantiaid cymdeithasol a phreifat yn cael eu hamddiffyn. Cynyddodd y darpariaethau y cyfnodau rhybudd roedd angen i landlordiaid eu rhoi i denantiaid os oeddent am feddiannu eiddo preswyl yn ystod y flwyddyn cyn y cyfrifiad. Gall hyn fod wedi lleihau nifer y bobl a newidiodd gyfeiriad. I gael y wybodaeth lawn, darllenwch Ddeddf y Coronafeirws 2020 ar wefan Legislation.gov.uk.

Ymhlith pobl a oedd yn byw mewn cartrefi sy'n eiddo i berchen-feddianwyr y gwelwyd y gyfran leiaf o bobl a oedd wedi symud o fewn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021 (6.2%). Dyma'r unig grp lle symudodd cyfran uwch o bobl o fewn y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021 o gymharu â 2011 (5.2%). Mae'n debygol bod y 'gwyliau treth stamp' a oedd ar waith o fis Gorffennaf 2020 wedi effeithio ar hyn gan ei fod wedi lleihau Treth Dir y Dreth Stamp dros dro ar eiddo preswyl a brynwyd yn ystod y misoedd cyn y cyfrifiad. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y canllawiau 'Stamp Duty Land Tax: temporary reduced rates' ar wefan GOV.UK.

Gall plant nad ydynt yn ddibynnol a symudodd yn ôl i gartref y teulu yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19) fod wedi cyfrannu at y gostyngiad mewn symudiadau i gartrefi rhent preifat a'r cynnydd mewn symudiadau i gartrefi sy'n eiddo i berchen-feddianwyr. Mae gan deuluoedd y mae eu holl blant yn rhai nad ydynt yn ddibynnol gyfraddau uchel o berchentyaeth o gymharu â "mathau eraill o gartrefi", sy'n cynnwys oedolion nad ydynt yn perthyn a myfyrwyr amser llawn sydd â chyfraddau uchel o rentu preifat. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein herthygl Nodweddion cartrefi yn ôl deiliadaeth, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021.

### Ffigur 1: Roedd gan un rhan o bump o bobl a oedd yn byw mewn cartrefi rhent preifat gyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021, sef cyfran lai nag yn 2011.

**Preswylwyr arferol un oed a throsodd yng Nghymru a Lloegr â chyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn y cyfrifiad yn ôl deiliadaeth, 2011 a 2021**

**Nodiadau:**

1. Er mwyn cymharu, caiff ffiniau awdurdodau lleol haen isaf 2021 eu defnyddio ar gyfer Cyfrifiad 2021 a Chyfrifiad 2011.

2. Mae deiliadaeth yn cyfeirio at ddeiliadaeth y cartref roedd preswylwyr arferol yn byw ynddo ar Ddiwrnod y Cyfrifiad; nid ydym yn gwybod beth oedd deiliadaeth y cartref roeddent yn byw ynddo flwyddyn cyn y cyfrifiad.

**Lawrlwytho'r data**

.xlsx

## Oedran a rhyw

Roedd pobl ar draws y rhan fwyaf o grwpiau oedran a rhyw yn llai tebygol o gael cyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021 o gymharu â Chyfrifiad 2011. Yn 2021, roedd gan 24.6% o fenywod 16 i 24 oed gyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn y cyfrifiad, sef y ganran uchaf o unrhyw grp oedran-rhyw.

Roedd y dosbarthiad oedran-rhyw yn 2021 yn debyg i 2011 i'r rheini a symudodd o fewn yr un awdurdod lleol. Gostyngodd y gyfran ar draws pob grp oedran i ddynion a menywod.

Cynyddodd cyfran y menywod 16 i 24 oed a oedd wedi newid cyfeiriad rhwng awdurdodau lleol o 12.2% yn 2011 i 13.9% yn 2021. Gall y ffaith bod myfyrwyr yn symud rhwng awdurdodau lleol esbonio hyn. Gall pandemig y coronafeirws (COVID-19) fod wedi effeithio ar y cynnydd ymhlith pobl 25 i 34 oed a oedd wedi newid cyfeiriad hefyd. Mae hyn oherwydd bod cyfrannau uchel o'r grp hwn yn blant nad ydynt yn ddibynnol a all fod wedi dychwelyd i gartref y teulu am eu bod yn gweithio gartref neu ar ffyrlo.

### Ffigur 2: Pobl rhwng 16 a 34 oed oedd fwyaf tebygol o fod wedi newid cyfeiriad, er ei fod yn llai tebygol yn 2021 nag yn 2011

**Pob preswylydd arferol un oed a throsodd yng Nghymru a Lloegr â chyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn y cyfrifiad yn ôl grp oedran bras a rhyw, 2011 a 2021**

**Nodiadau:**

1. Er mwyn cymharu, caiff ffiniau awdurdodau lleol haen isaf 2021 eu defnyddio ar gyfer Cyfrifiad 2021 a Chyfrifiad 2011.

**Lawrlwytho'r data**

.xlsx

## Statws economaidd-gymdeithasol (gan gynnwys myfyrwyr)

Mae'r Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC) yn nodi sefyllfa economaidd-gymdeithasol unigolyn, yn seiliedig ar ymatebion i gwestiynau am statws gweithgarwch economaidd, galwedigaeth a hanes cyflogaeth yng Nghyfrifiad 2021. Mae'n ddosbarthiad safonol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Myfyrwyr amser llawn oedd fwyaf tebygol o fod â chyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn Diwrnod y Cyfrifiad. Roedd gan chwarter o fyfyrwyr amser llawn (25.6%) gyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn y cyfrifiad, sydd bron heb newid o 25.4% yn 2011. Preswylfa arferol myfyriwr yw ei gyfeiriad yn ystod y tymor ni waeth ble yr oedd ar Ddiwrnod y Cyfrifiad. Roedd rhywfaint o dystiolaeth o newidiadau i'r boblogaeth yn ystod y tymor o ganlyniad i bandemig y coronafeirws (COVID-19). I gael rhagor o wybodaeth am sut y gwnaethom sicrhau amcangyfrif cywir o fyfyrwyr yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor, darllenwch ein methodoleg: Methodology for accurately enumerating students in Census 2021.

Pobl sydd erioed wedi gweithio ac sy'n ddi-waith am gyfnod hir oedd yr ail grp mwyaf tebygol o fod wedi symud o fewn y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn cyn Cyfrifiad 2011 (12.9%). Symudodd cyfran llawer llai (6.8%) o'r grp hwn o fewn y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021. Gostyngodd y gyfran a symudodd o fewn yr un awdurdod lleol o 8.6% yn 2011 i 4.0% yn 2021.

### Ffigur 3: Myfyrwyr amser llawn oedd fwyaf tebygol o fod wedi newid cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021 (25.6% o fyfyrwyr amser llawn), sydd bron heb newid o 25.4% yn 2011.

**Preswylwyr arferol 16 oed a throsodd yng Nghymru a Lloegr â chyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig cyn y cyfrifiad yn ôl NS-SEC, 2021 a 2011**

**Nodiadau:**

1. Er mwyn cymharu, caiff ffiniau awdurdodau lleol haen isaf 2021 eu defnyddio ar gyfer Cyfrifiad 2021 a Chyfrifiad 2011.

2. Mae NS-SEC yn cyfeirio at y Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol.

**Lawrlwytho'r data**

.xlsx

## Anabledd

Roedd gan gyfran lai o bobl nad oeddent yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb gyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021 (10.5% o breswylwyr arferol un oed a throsodd nad oeddent yn anabl). Roedd y cwestiwn yn y cyfrifiad i nodi anabledd yn 2021 yn wahanol i'r cwestiwn yn 2011. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein bwletin [Anabledd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021](#).

Gwelwyd gostyngiad yng nghyfran y bobl anabl a oedd wedi'u cyfyngu'n fawr yn eu gweithgareddau pob dydd a symudodd o fewn y Deyrnas Unedig hefyd, o 6.8% yn 2011 i 6.5% yn 2021.

Yn 2021, roedd gan 9.0% o bobl anabl a oedd wedi'u cyfyngu ychydig yn eu gweithgareddau pob dydd gyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn cyn y cyfrifiad, sef cynnydd o 6.5% yn 2011. Yn 2021, roedd 4.2% o'r grp hwn wedi symud rhwng awdurdodau lleol, sef cynnydd o 2.4%. Gall y cynnydd hwn fod yn gysylltiedig â dosbarthiad oedran pobl anabl a oedd wedi'u cyfyngu ychydig, gan fod cyfran uwch mewn grwpiau oedran iau yn 2021 nag yn 2011. Cynyddodd cyfran y bobl 16 i 24 oed oedd ag anabledd a oedd yn cyfyngu ychydig ar eu gweithgareddau o 3.3% yn 2011 i 8.6% yn 2021.

### Ffigur 4: Symudodd cyfran fwy o bobl anabl a oedd wedi'u cyfyngu ychydig yn eu gweithgareddau pob dydd o fewn y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021 na Chyfrifiad 2011

**Preswylwyr arferol un oed a throsodd yng Nghymru a Lloegr â chyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig cyn y cyfrifiad yn ôl anabledd, 2021 a 2011**

**Nodiadau:**

1. Er mwyn cymharu, caiff ffiniau awdurdodau lleol haen isaf 2021 eu defnyddio ar gyfer Cyfrifiad 2021 a Chyfrifiad 2011.

**Lawrlwytho'r data**

.xlsx

## Statws Teuluol

Pobl sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol oedd fwyaf tebygol o symud o fewn y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021 (42.6% o breswylwyr arferol un oed a throsodd sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol).

Gwelwyd cynnydd mewn symudiadau rhwng awdurdodau lleol i'r rheini sy'n byw mewn teuluoedd cwpwl ac i blant rhieni unigol nad ydynt yn ddibynnol. Gall pandemig y coronafeirws (COVID-19) fod wedi cyfrannu at benderfyniadau plant nad ydynt yn ddibynnol i ddychwelyd i gartref rhiant.

Gwelwyd gostyngiad yn nifer y bobl a symudodd o fewn yr un awdurdod lleol ar draws pob math o deulu. Ymhlith y rheini a oedd yn byw mewn teuluoedd un rhiant y gwelwyd y gostyngiad mwyaf.

### Ffigur 5: Pobl a oedd yn byw mewn sefydliad cymunedol ar Ddiwrnod y Cyfrifiad oedd fwyaf tebygol o gael cyfeiriad gwahanol y flwyddyn cynt

**Preswylwyr arferol un oed a throsodd yng Nghymru a Lloegr â chyfeiriad gwahanol yn y Deyrnas Unedig cyn y cyfrifiad yn ôl statws teuluol, 2021 a 2011**

**Nodiadau:**

1. Er mwyn cymharu, caiff ffiniau awdurdodau lleol haen isaf 2021 eu defnyddio ar gyfer Cyfrifiad 2021 a Chyfrifiad 2011.

**Lawrlwytho'r data**

.xlsx

# 3 . Mewnlifau – rhanbarthau ac awdurdodau lleol

De-ddwyrain Lloegr (2.6%) a De-orllewin Lloegr (2.5%) oedd y rhanbarthau â'r mewnlifau uchaf. Mae mewnlifau yn cyfeirio at breswylwyr arferol sy'n byw yn yr ardal ar Ddiwrnod y Cyfrifiad oedd â chyfeiriad flwyddyn yn ôl mewn ardal arall yng Nghymru a Lloegr, a gyflwynir fel cyfran o breswylwyr arferol un oed a throsodd yn yr ardal. Roedd patrwm tebyg yn 2011. Ledled rhanbarthau, mae cyfran y mewnlifau wedi cynyddu, heblaw am yn Llundain lle mae mewnlifau rhanbarthol wedi gostwng i 1.7% yn 2021 o 2.2% yn 2011.

### Ffigur 6: Llundain yw'r unig ranbarth lle gwelwyd gostyngiad yn y mewnlifau rhwng 2011 (2.2%) a 2021 (1.7%)

**Mewnlifau o breswylwyr arferol un oed a throsodd oedd â chyfeiriad gwahanol mewn rhanbarth gwahanol yng Nghymru a Lloegr cyn y cyfrifiad, 2021 a 2011**

**Lawrlwytho'r data**

.xlsx

### Ffigur 7: Map rhyngweithiol yn dangos mewnlifau awdurdodau lleol

**Mewnlifau o breswylwyr arferol un oed a throsodd oedd â chyfeiriad mewn awdurdod lleol gwahanol yng Nghymru a Lloegr flwyddyn cyn y cyfrifiad fel cyfran o breswylwyr arferol un oed a throsodd, 2021 a 2011**

**Nodiadau:**

1. Er mwyn cymharu, caiff ffiniau awdurdodau lleol haen isaf 2021 eu defnyddio ar gyfer Cyfrifiad 2021 a Chyfrifiad 2011.

**Lawrlwytho'r data**

.xlsx

Awdurdodau lleol yn Llundain ac ardaloedd myfyrwyr oedd yr awdurdodau lleol â'r mewnlifau uchaf o rannau eraill o Gymru a Lloegr yn 2021. Roedd patrwm tebyg yn 2011.

O blith y 10 mewnlif cymesurol uchaf yn 2021, roedd wyth yn Llundain, a Chaergrawnt a Rhydychen oedd y ddau arall. Dinas Llundain oedd uchaf (18.2%) ac yna Islington (11.6%). Ceredigion oedd yr awdurdod lleol yng Nghymru â'r mewnlifau uchaf (6.4%).

Caerffili yng Nghymru (2.0%) a Barrow-in-Furness yn Lloegr (1.8%) oedd yr awdurdodau lleol â'r mewnlifau isaf yn 2021.

Ni welwyd llawer iawn o newid ym mewnlifau awdurdodau lleol rhwng 2011 a 2021.

Yng Nghastell-nedd Port Talbot y gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn mewnlif yng Nghymru, gan gynyddu o 2.3% yn 2011 i 3.3% yn 2021. Yn Ninas Llundain y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn Lloegr, o 15.7% yn 2011 i 18.2% yn 2021, ac yna Gorllewin Swydd Gaerhirfryn, o 3.9% yn 2011 i 6.2% yn 2021.

Yng Ngheredigion y gwelwyd y gostyngiad mwyaf yng Nghymru, gan ostwng i 6.4% yn 2021 o 7.5% yn 2011. Yn Haringey y gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn Lloegr, gan ostwng i 7.2% yn 2021 o 8.8% yn 2011.

# 4 . All-lifau – rhanbarthau ac awdurdodau lleol

Mae all-lifau yn cyfeirio at breswylwyr arferol sy'n byw mewn ardal arall yng Nghymru a Lloegr, gyda chyfeiriad yn yr ardal flwyddyn ôl, a gyflwynir fel cyfran o breswylwyr arferol un oed a throsodd yn yr ardal.

Yn 2021, Llundain oedd â'r all-lifau uchaf. Mae nifer o ffactorau i esbonio hyn, gan gynnwys mewnlifau rhyngwladol uchel yn y gorffennol sy'n arwain at all-lifau mewnol uchel wrth i'r mudwyr hyn symud allan o Lundain. I gael rhagor o fanylion, darllenwch ein bwletin [Mudo rhyngwladol, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021](). Hefyd, mae'r ffaith bod pobl yn symud i Lundain cyn cael plant, yn cael plant yn Llundain ac yna'n symud i ffwrdd o Lundain fel teulu â phlant yn esbonio hyn yn rhannol.

Cynyddodd all-lif Llundain i 3.8% yn 2021, o 2.7% yn 2011, er i'r rhan fwyaf o all-lifau rhanbarthol ostwng ledled y rhanbarthau eraill. Arsylwyd ar all-lifau cynyddol rhwng 2012 a 2020 cyn pandemig y coronafeirws (COVID-19); ceir rhagor o fanylion am symudiad pobl i mewn ac allan o Lundain yn ein bwletin [Population estimates for the UK, England, Wales, Scotland and Northern Ireland: mid-2020](). Gallai pandemig y coronafeirws fod wedi cyfrannu at hyn hefyd oherwydd bod cynnydd mewn trefniadau gweithio gartref wedi lleihau'r angen i bobl fyw ger eu gweithle.

### Ffigur 8: Mae all-lifau Llundain wedi cynyddu o 2.7% yn 2011 i 3.8% yn 2021

**All-lifau o breswylwyr arferol un oed a throsodd oedd â chyfeiriad gwahanol mewn rhanbarth gwahanol yng Nghymru a Lloegr cyn y cyfrifiad, 2021 a 2011**

**Lawrlwytho'r data**

.xlsx

Roedd pob un o'r 16 o awdurdodau lleol â'r all-lifau uchaf yn Llundain. Dinas Llundain (16.3%) a Hammersmith a Fulham (14.3%) oedd â'r all-lifau uchaf. Roedd y patrwm hwn yn debyg i 2011. Yng Nghymru, Caerdydd oedd yr awdurdod lleol â'r all-lifau uchaf (4.5%).

### Ffigur 9: Map rhyngweithiol yn dangos all-lifau awdurdodau lleol

**All-lifau o breswylwyr arferol un oed a throsodd oedd â chyfeiriad gwahanol mewn awdurdod lleol gwahanol yng Nghymru a Lloegr cyn y cyfrifiad fel cyfran o breswylwyr arferol un oed a throsodd, 2021 a 2011**

**Nodiadau:**

1. Er mwyn cymharu, caiff ffiniau awdurdodau lleol haen isaf 2021 eu defnyddio ar gyfer Cyfrifiad 2021 a Chyfrifiad 2011.

**Lawrlwytho'r data**

.xlsx

Merthyr Tudful a Blaenau Gwent oedd yr awdurdodau lleol â'r all-lifau lleiaf yng Nghymru (2.2%). Barrow-in-Furness oedd yr awdurdod lleol yn Lloegr â'r all-lif lleiaf (1.9%).

Roedd y 10 awdurdod lleol lle gwelwyd y cynnydd pwynt canran mwyaf mewn all-lifau yn Llundain; Lambeth oedd yr uchaf, a gynyddodd o 10.1% yn 2011 i 13.5% yn 2021. Yng Nghastell-nedd Port Talbot y gwelwyd y cynnydd pwynt canran mwyaf yng Nghymru, gan gynyddu o 2.5% i 3.2%.

# 5 . Llifau net – rhanbarthau ac awdurdodau lleol

Oherwydd bod mwy o fewnlifau a llai o all-lifau, gwelwyd cynnydd mewn llifau net yn y rhan fwyaf o ranbarthau, sy'n golygu bod mwy o bobl wedi symud i mewn i'r ardal nag allan o'r ardal (o weddill Cymru a Lloegr). Yn Ne-orllewin Lloegr y gwelwyd mewnlif net mwyaf (0.7% o breswylwyr arferol un oed a throsodd yn yr ardal).

Llundain oedd yr unig ranbarth ag all-lif net yn 2021, a gynyddodd o 0.5% o all-lif net yn 2011 i 2.1% yn 2021.

### Ffigur 10: Llundain oedd yr unig ranbarth ag all-lif net yn 2021

**Llifau net o breswylwyr arferol un oed a throsodd oedd â chyfeiriad gwahanol mewn rhanbarth gwahanol yng Nghymru a Lloegr cyn y cyfrifiad fel cyfran o breswylwyr arferol un oed a throsodd, 2021 a 2011**

**Lawrlwytho'r data**

.xlsx

### Ffigur 11: Map rhyngweithiol yn dangos llifau net awdurdodau lleol

**Llifau net o breswylwyr arferol un oed a throsodd oedd â chyfeiriad gwahanol mewn awdurdod lleol gwahanol yng Nghymru a Lloegr cyn y cyfrifiad fel cyfran o breswylwyr arferol un oed a throsodd, 2021 a 2011**

**Nodiadau:**

1. Er mwyn cymharu, caiff ffiniau awdurdodau lleol haen isaf 2021 eu defnyddio ar gyfer Cyfrifiad 2021 a Chyfrifiad 2011.

**Lawrlwytho'r data**

.xlsx

Mewn ardaloedd myfyrwyr y gwelwyd y mewnlifau net uchaf yn 2021 (fel cyfran o breswylwyr arferol un oed a throsodd), a oedd yn debyg i 2011. Ceredigion yng Nghymru (2.0%) a Nottingham yn Lloegr (3.1%) oedd yr awdurdodau lleol â'r mewnlifau net uchaf.

Yn Llundain y gwelwyd yr ardaloedd â'r all-lifau net uchaf. Wrecsam oedd yr ardal â'r all-lif net mwyaf yng Nghymru (0.3%) a Haringey yn Lloegr (3.4%).

Yn Llundain y gwelwyd yr ardaloedd yng Nghymru a Lloegr â'r all-lifau net uchaf yn 2011 hefyd, yn rhannol oherwydd y mewnlif rhyngwladol uwch. Roedd graddfa all-lifau net yn fwy yn 2021 nag yn 2011. Roedd y 10 awdurdod lleol â'r cynnydd mwyaf mewn all-lifau net yn Llundain. Haringey oedd â'r newid pwynt canran mwyaf mewn all-lifau net, gydag all-lif o 3.4% yn 2021 ac all-lif o 0.6% yn 2011.

Mewn ardaloedd mwy gwledig ac ardaloedd myfyrwyr mewn dinasoedd a threfi bach y gwelwyd cynnydd pwynt canran mewn mewnlifau net.

# 6 . Pobl â chyfeiriad gwahanol flwyddyn cyn y cyfrifiad yn yr un ardal

Gwelwyd gostyngiad ledled pob rhanbarth yng nghyfran y bobl a symudodd o fewn eu rhanbarth. Yng Nghymru y gwelwyd y gwahaniaeth pwynt canran mwyaf rhwng 2011 a 2021, a ostyngodd o 7.1% i 8.7%. Roedd gan Gymru gyfran is o symudiadau (7.1%) nag unrhyw ranbarth yn Lloegr. Yn Llundain y gwelwyd y gyfran uchaf o symudiadau o fewn y rhanbarth (9.7%).

### Ffigur 12: Gostyngodd y cyfrannau o symudiadau o fewn pob rhanbarth ledled Cymru ac ym mhob rhanbarth yn Lloegr

**Preswylwyr arferol un oed a throsodd oedd â chyfeiriad gwahanol o fewn eu rhanbarth yng Nghymru a Lloegr cyn y cyfrifiad fel cyfran o breswylwyr arferol un oed a throsodd, 2021 a 2011**

**Lawrlwytho'r data**

.xlsx

### Ffigur 13: Map rhyngweithiol yn dangos symudiadau o fewn awdurdodau lleol

**Cyfran y preswylwyr arferol un oed a throsodd oedd â chyfeiriad gwahanol yn yr un awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr cyn y cyfrifiad fel cyfran o breswylwyr arferol un oed a throsodd, 2021 a 2011**

**Nodiadau:**

1. Er mwyn cymharu, caiff ffiniau awdurdodau lleol haen isaf 2021 eu defnyddio ar gyfer Cyfrifiad 2021 a Chyfrifiad 2011.

**Lawrlwytho'r data**

.xlsx

Yn 2021, ardaloedd myfyrwyr oedd yr awdurdodau lleol â'r cyfrannau uchaf o bobl oedd â chyfeiriad gwahanol flwyddyn cyn y cyfrifiad yn yr un awdurdod lleol. Caerdydd oedd â'r gyfran uchaf yng Nghymru yn 2021 (9.2%), a Rhydychen oedd â'r gyfran uchaf yn Lloegr (11.0%).

Roedd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol (288 allan o 321) lai o symudiadau o fewn yr awdurdod lleol yn 2021 nag yn 2011. Hastings oedd yr awdurdod lleol lle gwelwyd y gostyngiad pwynt canran mwyaf (o 8.8% yn 2011 i 5.2% yn 2021). Gwelwyd gostyngiad mewn symudiadau o fewn yr un awdurdod lleol ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru hefyd, ac yng Nghasnewydd y gwelwyd y gostyngiad pwynt canran mwyaf gyda 6.4% yn 2011 a 4.4% yn 2021.

# 7 . Data mudo manwl

Data mudo manwl
Set ddata | Rhyddhawyd ar 6 Medi 2023
Mae ystadegau mudo manwl yn darparu nodweddion pobl neu gartrefi sydd wedi symud o fewn Cymru a Lloegr, neu o wlad arall i Gymru a Lloegr, yn ystod y flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021.

# 8 . Rhestr termau

## Cyfeiriad flwyddyn yn ôl

Y lle roedd person yn byw flwyddyn cyn Diwrnod y Cyfrifiad (21 Mawrth 2021), hynny yw, ddydd Mawrth 2020. Gallai pobl ddewis o:

- yr un peth â'r cyfeiriad presennol
- cyfeiriad myfyriwr yn ystod y tymor neu gyfeiriad ysgol breswyl yn y Deyrnas Unedig
- cyfeiriad arall yn y Deyrnas Unedig
- y tu allan i'r Deyrnas Unedig

## Sefydliad cymunedol

Lleoliad yw sefydliad cymunedol wedi'i reoli lle caiff y llety preswyl ei oruchwylio drwy'r amser neu am ran o'r amser. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- neuaddau preswyl prifysgolion ac ysgolion preswyl
- cartrefi gofal, ysbytai, hosbisau ac unedau mamolaeth
- gwestai, tai llety, hostelau a llety gwely a brecwast, sy'n cynnwys llety preswyl i saith gwestai neu fwy
- carchardai a chyfleusterau diogel eraill
- Llety Byw Unigol mewn canolfannau milwrol
- llety i staff
- sefydliadau crefyddol

Nid yw'n cynnwys llety gwarchod, fflatiau a wasanaethir, llety nyrsys, na thai a gaiff eu rhentu i fyfyrwyr gan landlordiaid preifat. Cartrefi yw'r rhain.

## Anabledd

Yng Nghyfrifiad 2021, ystyriwyd bod pobl a asesodd fod cyflwr neu salwch corfforol neu feddyliol hirdymor yn cyfyngu ar eu gweithgareddau pob dydd yn anabl.

Mae'r diffiniad hwn o berson anabl yn cyrraedd safon wedi'i chysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar gyfer mesur anableddac mae'n unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Mae'r diffiniad hwn yn nodi bod yn rhaid i berson gael nam corfforol neu feddyliol, a bod y nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu person i wneud gweithgareddau pob dydd.

Felly, cafodd y rhai a nododd fod cyflwr yn cyfyngu ar eu gweithgareddau pob dydd ychydig neu yn fawr eu dosbarthu'n anabl. Cafodd pobl nad oedd ganddynt gyflyrau corfforol neu feddyliol hirdymor, neu oedd â chyflyrau nad oeddent yn cyfyngu ar eu gweithgareddau pob dydd, eu dosbarthu'n bobl nad ydynt yn anabl. I gael manylion am newidiadau i gwestiynau rhwng 2011 a 2021, darllenwch Adran 10 yn ein herthygl Unpaid care and protected characteristics, England and Wales: Census 2021.

## Teulu

Ystyr teulu yw pâr priod, cwpwl mewn partneriaeth sifil neu gwpwl sy'n cyd-fyw sydd â phlant neu heb blant, neu un rhiant sydd ag o leiaf un plentyn sy'n byw yn yr un cartref. Gall plant fod yn ddibynnol neu'n blant nad ydynt yn ddibynnol. Gall teulu gynnwys cymysgedd o blant dibynnol a phlant nad ydynt yn ddibynnol. Mae gan bob teulu Berson Cyswllt y Teulu.

## Llif net

Yr all-lifau o ardal Yn y bwletin hwn, mae mewnlifau, all-lifau a llifau net wedi'u cyfyngu i lifau rhwng ardaloedd o fewn Cymru a Lloegr a chânt eu cyflwyno fel cyfran o'r boblogaeth o breswylwyr arferol un oed a throsodd ar Ddiwrnod y Cyfrifiad.

## Plentyn nad yw'n ddibynnol

Caiff y term "plant sy'n oedolion" ei ddefnyddio weithiau. Ystyr plentyn nad yw'n ddibynnol yw person sy'n byw gyda'i riant neu rieni ac sydd naill ai'n 19 oed neu drosodd a heb briod, partner neu blentyn sy'n byw yn y cartref, neu'n 16 i 18 oed a heb fod mewn addysg amser llawn a heb briod, partner neu blentyn sy'n byw yn y cartref

## Math o ddeiliadaeth

P'un a yw aelodau cartref yn berchen ar y cartref y maent yn byw ynddo neu'n ei rentu.

Gall cartref sy'n eiddo i berchen-feddiannydd gynnwys y canlynol:

- yn berchen arno'n gyfan gwbl, lle mae aelodau o'r cartref yn berchen ar y cartref cyfan
- yn berchen arno gyda morgais neu fenthyciad
- yn berchen arno'n rhannol â chynllun rhanberchnogaeth

Gall cartref sy'n cael ei rentu gynnwys y canlynol:

- wedi'i rentu'n breifat; er enghraifft, drwy landlord preifat neu asiant gosod eiddo
- wedi'i rentu'n gymdeithasol drwy gyngor lleol neu gymdeithas dai

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar gyfer lleoedd cartref lle nad oes unrhyw breswylwyr arferol.

## Preswylydd arferol

Ystyr preswylydd arferol yw unrhyw un a oedd, ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, sef 21 Mawrth 2021, yn y Deyrnas Unedig ac wedi aros neu'n bwriadu aros yn y Deyrnas Unedig am gyfnod o 12 mis neu fwy, neu a oedd â chyfeiriad parhaol yn y Deyrnas Unedig ac a oedd y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac yn bwriadu aros y tu allan i'r Deyrnas Unedig am lai na 12 mis.

# 9 . Mesur y data

## Dyddiad cyfeirio

Mae'r cyfrifiad yn rhoi amcangyfrifon o nodweddion pob unigolyn a chartref yng Nghymru a Lloegr ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021. Caiff ei gynnal unwaith bob 10 mlynedd ac mae'n rhoi'r amcangyfrif mwyaf cywir o'r holl bobl a chartrefi yng Nghymru a Lloegr i ni.

Rydym yn gyfrifol am gynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, ond byddwn hefyd yn rhyddhau allbynnau ar gyfer y Deyrnas Unedig mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Cofnodion Cenedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon. Cafodd y cyfrifiad yng Ngogledd Iwerddon ei gynnal ar 21 Mawrth 2021 hefyd, ond cafodd cyfrifiad yr Alban ei symud i 20 Mawrth 2022. Mae holl swyddfeydd y cyfrifiad yn y Deyrnas Unedig yn gweithio'n agos i ddeall sut y bydd y gwahaniaeth hwn mewn dyddiadau cyfeirio yn effeithio ar ystadegau poblogaeth a thai'r Deyrnas Unedig gyfan, o ran yr amseru a'r cwmpas.

## Cyfradd ymateb

Cyfradd ymateb unigolion yw nifer y preswylwyr arferol y cafodd manylion unigol eu darparu ar eu cyfer ar holiadur a ddychwelwyd, wedi'i rannu ag amcangyfrif o'r boblogaeth breswyl arferol.

Y gyfradd ymateb unigolion ar gyfer Cyfrifiad 2021 oedd 97% o boblogaeth breswyl arferol Cymru a Lloegr, a dros 88% ym mhob awdurdod lleol. Cafodd y rhan fwyaf o ffurflenni (89%) eu derbyn ar lein. Gwnaeth y gyfradd ymateb ragori ar ein targed, sef 94% yn gyffredinol ac 80% ym mhob awdurdod lleol.

## 10 . Cryfderau a chyfyngiadau

Ceir ystyriaethau o ansawdd ynghyd â chryfderau a chyfyngiadau Cyfrifiad 2021 yn fwy cyffredinol yn ein hadroddiad Gwybodaeth am Ansawdd a Methodoleg ar gyfer Cyfrifiad 2021. I gael rhagor o wybodaeth am sicrhau ansawdd data, darllenwch ein methodoleg Measures showing the quality of Census 2021 estimates. Darllenwch fwy am yr ystyriaethau ansawdd penodol ar gyfer demograffeg a mudo yn ein methodoleg Demography and migration quality information for Census 2021.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein prosesau sicrhau ansawdd eraill yn ein methodoleg Maximising the quality of Census 2021 population estimates.

## 11 . Cyfeirio at y bwletin hwn

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG), rhyddhawyd ar 6 Medi 2023, gwefan y SYG, bwletin ystadegol, Pobl â chyfeiriad gwahanol ym mis Mawrth 2020 i Ddiwrnod y Cyfrifiad 2021, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021